



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 Rhif 3453 (Cy. 50)

1999 No. 3453 (W. 50)

**ARDRETHU A PHRISIO,
CYMRU**

**RATING AND VALUATION,
WALES**

**Rheoliadau Rhestr Ardrethu
Canolog (Cymru) 1999**

**The Central Rating List (Wales)
Regulations 1999**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Gyda golwg ar sicrhau ardrethu canolog yn ei gryswth ar hereditamentau penodol, ceir gwneud rheoliadau o dan adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n dynodi person a rhagnodi, mewn perthynas â'r person hwnnw, un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditamentau annomestig.

With a view to securing the central rating en bloc of certain hereditaments, regulations may be made under section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988 which designate a person and prescribe in relation to that person one or more descriptions of non-domestic hereditament.

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dynodi'r personau a enwir yn yr Atodlen ac mae'n rhagnodi'r disgrifiadau o'r hereditamentau a ddangosir yn yr Atodlen gyferbyn ag enwau'r personau hynny.

Regulation 3 of these Regulations designates the persons named in the Schedule and prescribes the descriptions of hereditament shown in the Schedule against the names of those persons.

Mae Rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol dangos enwau'r personau dynodedig a'r hereditamentau a leolir yng Nghymru, sydd o fewn y disgrifiadau rhagnodedig ac a feddiennir (neu, os nas meddiennir, a berchnogir) gan y personau hynny, ar unrhyw restr ardrethu annomestig canolog i Gymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny.

Regulation 4 requires the names of the designated persons and the hereditaments situated in Wales which are within the prescribed descriptions and are occupied (or, if unoccupied, owned) by those persons to be shown in any central non-domestic rating list for Wales compiled on or after 1st April 2000.

Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol fod y rhestr yn dangos gwybodaeth benodol am y personau dynodedig a'r dyddiad pan fydd y gwerth ardrethol a ddangosir ar y rhestr yn dechrau bod yn weithredol.

Regulation 5 requires the list to show certain information about the designated persons and the date from which a rateable value shown in the list has effect.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994 er mwyn eithrio Bwrdd Rheilffyrdd Prydeinig o ardrethu canolog.

Regulation 6 amends the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994 to exclude the British Railways Board from central rating.

Mae Rheoliad 7 yn diddymu Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog 1994 mewn perthynas â Chymru o 1 Ebrill 2000 ymlaen gyda rhai eithriadau.

Regulation 7 revokes the Central Rating Lists Regulations 1994 in relation to Wales with effect from 1st April 2000 subject to certain savings.

1999 Rhif 3453 (Cy.50)

1999 No. 3453 (W.50)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

**RATING AND VALUATION,
WALES**

**Rheoliadau Rhestr Ardrethu
Canolog (Cymru) 1999**

**The Central Rating List (Wales)
Regulations 1999**

Wedi'u gwneud 22 Rhagfyr 1999
Yn dod i rym 30 Rhagfyr 1999

Made 22nd December 1999
Coming into force 30th December 1999

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1) a (2), 140(4) a 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(a), ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru(b);

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 53(1) and (2), 140(4) and 143(2) of the Local Government Finance Act 1988(a), which are now vested in it so far as exercisable in Wales(b);

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 1999.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “person dynodedig” mewn perthynas â rhestr ardrethu canolog i Gymru, a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny, yw person a ddynodwyd gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn (“designated person”);

ystyr “rhestr ardrethu canolog” yw'r rhestr ardrethu annomestig canolog i Gymru (“central rating list”).

(3) Cyfeiriad at hereditament annomestig perthnasol yw pob cyfeiriad at hereditament yn y Rheoliadau hyn.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at berson dynodedig wrth ei enw yn gyfeiriad at y cwmni neu'r corff a gofrestrwyd gan yr enw hwnnw, neu sy'n dwyn yr enw hwnnw, ar y dyddiad y cofnodwyd yr enw hwnnw ar y rhestr ardrethu canolog.

(5) Mae i unrhyw derm a ddefnyddir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu unrhyw Ran o'r Atodlen yr ystyr a briodolir iddo yn yr Atodlen honno neu'r Rhan honno.

Citation, commencement and interpretation

1.—(1) These Regulations may be cited as the Central Rating List (Wales) Regulations 1999 and shall come into force on 30th December 1999.

(2) In these Regulations—

“central rating list” means the central non-domestic rating list for Wales (“rhestr ardrethu canolog”);

“designated person” in relation to a central non-domestic rating list for Wales compiled on or after 1st April 2000 means a person designated by regulation 3(1) of these Regulations (“person dynodedig”).

(3) Any reference in these Regulations to a hereditament is to a relevant non-domestic hereditament.

(4) Any reference in these Regulations to a designated person by name is a reference to the company or body registered by or bearing that name at the date that name is entered in the central rating list.

(5) Any term used in the Schedule to these Regulations or any Part of the Schedule has the meaning ascribed in that Schedule or that Part.

(a) 1988 p.41.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) 1988 c.41.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Cymhwyso'r Rheoliadau

2. Bydd effaith i'r Rheoliadau hyn mewn perthynas ag unrhyw restr ardrethu canolog a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny.

Dynodi personau a disgrifio hereditamentau

3.—(1) At ddibenion adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988—

(a) Dynoder yma drwy hyn y personau a enwir yn yr Atodlen; a

(b) Rhagnoder yma drwy hyn, mewn perthynas â phob un o'r personau hynny, ddisgrifiad o'r hereditament a roddir islaw enw'r person hwnnw yn yr Atodlen.

(2) Ni fydd Rheoliad 6 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) 1989(a) (hereditamentau croesffiniol) yn gymwys i unrhyw hereditament sy'n dod o fewn unrhyw ddisgrifiad yn yr Atodlen.

Cynnwys y rhestr ardrethu canolog

4. Rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, am bob dydd ym mhob blwyddyn y bydd y rhestr honno mewn grym—

(a) enw pob person a ddynodir gan reoliad 3; a

(b) gyferbyn â phob enw, bob hereditament a leolir yng Nghymru a feddiennir ar y diwrnod dan sylw (neu, os nas meddiennir ef, a berchnogir) gan y person hwnnw, ac sy'n dod o fewn y disgrifiad a ragnodir mewn perthynas â'r person hwnnw gan y rheoliad hwnnw.

5.—(1) Yn ogystal, rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, gyferbyn ag enw pob person dynodedig—

(a) os cwmni cofrestredig yw'r person, ei swyddfa gofrestredig, ac ym mhob achos arall ei brif le busnes o fewn y Deyrnas Unedig;

(b) os cwmni cofrestredig yw'r person, ei rif cofrestredig; ac

(c) y diwrnod cyntaf, os yw'n ddiweddarach na 1 Ebrill 2000, pan fydd effaith i'r gwerth ardrethol a ddangosir ar y rhestr wrth enw'r person dynodedig

(2) Yn ogystal, rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, os bydd y rhestr wedi'i newid yn unol â chyfarwyddyd gan driwlynys, enw'r triwlynys a roddodd y cyfarwyddyd.

Hereditamentau Rheilffyrdd

6.—(1) Diwygier Rheoliad 3 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi)

(a) O.S. 1989/1060.

Application of the Regulations

2. These Regulations shall have effect with respect to any central rating list compiled on or after 1st April 2000.

Designation of persons and description of hereditaments

3.—(1) For the purposes of section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988—

(a) there are hereby designated the persons named in the Schedule; and

(b) there is hereby prescribed in relation to each such person the description of hereditament set out below the name of that person in the Schedule.

(2) Regulation 6 of the Non-Domestic Rating (Miscellaneous Provisions) Regulations 1989(a) (cross-boundary hereditaments) shall not apply to any hereditament falling within any description in the Schedule.

Content of central rating list

4. The central rating list must show, for each day in each year for which that list is in force—

(a) the name of each person designated by regulation 3; and

(b) against each name, each hereditament situated in Wales which on the day concerned is occupied (or, if unoccupied, owned) by that person, and which falls within the description prescribed in relation to that person by that regulation.

5.—(1) The central rating list shall also show, against the name of each designated person—

(a) where the person is a registered company, its registered office, and in any other case the person's principal place of business within the United Kingdom;

(b) where the person is a registered company, its registered number; and

(c) the first day, if later than 1st April 2000, for which the rateable value shown in the list against the name of the designated person has effect.

(2) The central rating list shall also show, where the list has been altered in pursuance of a direction by a tribunal, the name of the tribunal which gave the direction.

Railway Hereditaments

6.—(1) Regulation 3 of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals)

(a) S.I 1989/1060.

1994(a) ynglŷn â Chymru fel a ganlyn .

(2) Hepgorer y diffiniad o “the British Railways Board” ym mharagraff (1).

(3) Yn lle paragraff (1)(b)(i) mewnosoder —

“(i)(a) where paragraph (3) applies, which are occupied by Railtrack plc, or by a licence exempt operator or a licence holder other than Railtrack plc, or

(b) where paragraph (5) or (6) applies, which are occupied by any person designated by regulation 5(1) of, and named in Part 4 of the Schedule to, the Central Rating Lists Regulations 1994,

and which are not situated on operational land of that occupier, or of another relevant person;”.

(4) Ychwaneger ar ddiwedd paragraff (1) —

“and 'relevant person' means -

(i) any person designated and named as mentioned in sub-paragraph (b)(i) above, or

(ii) any licence exempt operator or licence holder which is not so designated”.

(5) Hepgorer —

(a) paragraff (2),

(b) y geiriau ‘(other than the Board)’ ym mharagraff (3)(a)(ii), ac

(c) y geiriau o’r dechrau hyd at ‘the Board and’ ym mharagraff (4).

Regulations 1994(a) is amended in relation to Wales as follows.

(2) In paragraph (1), the definition of “the British Railways Board” is omitted.

(3) For paragraph (1)(b)(i) there is substituted —

“(i)(a) where paragraph (3) applies, which are occupied by Railtrack plc, or by a licence exempt operator or a licence holder other than Railtrack plc, or

(b) where paragraph (5) or (6) applies, which are occupied by any person designated by regulation 5(1) of, and named in Part 4 of the Schedule to, the Central Rating Lists Regulations 1994,

and which are not situated on operational land of that occupier, or of another relevant person;”.

(4) At the end of paragraph (1) there is added —

“and 'relevant person' means -

(i) any person designated and named as mentioned in sub-paragraph (b)(i) above, or

(ii) any licence exempt operator or licence holder which is not so designated”.

(5) There are omitted—

(a) paragraph (2),

(b) the words ‘(other than the Board)’ in paragraph (3)(a)(ii), and

(c) in paragraph (4), the words from the beginning to ‘the Board and’.

Diddymiadau ac eithriadau

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymer drwy hyn ynglŷn â Chymru o 1 Ebrill 2000 ymlaen, y canlynol—

(a) Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog 1994(b);

(b) Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog (Diwygio) 1996(c).

(2) Bydd y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau i fod ag effaith ar 1 Ebrill 2000 ac ar ôl hynny at ddibenion y canlynol neu at ddibenion sy’n gysylltiedig â’r canlynol—

(a) unrhyw newid i’r rhestr sydd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan reoliadau a wnaed o dan adran 58(ch) o Ddeddf 1988 (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) sy’n ymwneud â’r swm sy’n daladwy mewn perthynas â hereditament am gyfnod perthnasol fel a ddiffinnir yn yr adran honno.

Revocations and savings

7.—(1) Subject to paragraph (2), there are hereby revoked in relation to Wales with effect from 1st April 2000 the following—

(a) the Central Rating Lists Regulations 1994(b);

(b) the Central Rating Lists (Amendment) Regulations 1996(c).

(2) The provisions mentioned in paragraph (1) shall continue to have effect on and after 1st April 2000 for the purposes of or for purposes connected with—

(a) any alteration of the list in force immediately before 1st April 2000; or

(b) any provision made by regulations made under section 58(d) of the 1988 Act (special provision for 1995 onwards) as to the chargeable amount as regards a hereditament for a relevant period as defined in that section.

(a) O.S. 1994/3123.

(b) O.S. 1994/3121.

(c) O.S. 1996/620.

(ch) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) a chan adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3).

(a) S.I. 1994/3123.

(b) S.I. 1994/3121.

(c) S.I. 1996/620.

(d) Section 58 is amended by paragraph 68 of Schedule 13 to the Local Government Finance Act 1992 (c.14) and by section 2 of the Non-Domestic Rating Act 1994 (c.3).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998.(a)

22 Rhagfyr 1999

22 December 1999

Dafydd Elis Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN

RHEOLIAD 3

SCHEDULE

REGULATION 3

RHAN 1

HEREDITAMENTAU CAMLESI

Person dynodedig
Bwrdd Ffyrdd Dŵr Prydain

Hereditamentau perthnasol
Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 5(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

RHAN 2

HEREDITAMENTAU CYFLENWI TRYDAN

Person dynodedig
The National Grid Company plc

Hereditamentau perthnasol
Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at drawsffurfio neu drawsyrro pŵer trydanol, neu at ddibenion ategol

Person dynodedig
Manweb plc
Midlands Electricity plc
South Wales Electricity plc

Hereditamentau perthnasol
Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at swyddogaethau cyflenwr trydan cyhoeddus, neu at ddibenion ategol

Yn y Rhan hon—

ystyr “hereditament a eithrir” yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf—

PART 1

CANAL HEREDITAMENTS

Designated person
The British Waterways Board

Relevant hereditaments
The hereditament described in regulation 5(2) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

PART 2

ELECTRICITY SUPPLY HEREDITAMENTS

Designated person
The National Grid Company plc

Relevant hereditaments
Hereditaments (other than excepted hereditaments) wholly or mainly used for the purposes of the transformation or transmission of electrical power, or for ancillary purposes

Designated person
Manweb plc
Midlands Electricity plc
South Wales Electricity plc

Relevant hereditaments
Hereditaments (other than excepted hereditaments) wholly or mainly used for the purposes of the functions of a public electricity supplier, or for ancillary purposes

In this Part—

“excepted hereditament” means a hereditament consisting of or comprising premises used wholly or mainly—

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

- (a) fel siop neu le arall ar gyfer gwerthu, arddangos neu ddangos cyfarpar neu atodion at ddefnydd defnyddwyr trydan (gan anwybyddu unrhyw ddefnydd ar gyfer derbyn taliadau am ddefnyddio trydan);
- (b) fel adeiladau swyddfa person dynodedig, os na fydd yr adeiladau hynny ar dir gweithredol y person hwnnw; neu
- (c) at y naill a'r llall o'r dibenion blaenorol; ac

mae i "cyflenwr trydan cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public electricity supplier" yn adran 6(9) o Ddeddf Trydan 1989(a).

- (a) as a shop or other place for the sale, display or demonstration of apparatus or accessories for use by consumers of electricity (any use for the receipt of payments for the use of electricity being disregarded);
- (b) as office premises of a designated person, where those premises are not situated on operational land of that person; or
- (c) for both of the foregoing purposes; and

"public electricity supplier" has the same meaning as in section 6(9) of the Electricity Act 1989(a).

RHAN 3

HEREDITAMENTAU NWY

Person dynodedig
BG plc

Hereditamentau perthnasol

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion BG plc yn gweithredol fel cludwr nwy cyhoeddus

Yn y Rhan hon—

ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir neu, os nad feddiennir hwy, y bwriedir eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf

- (a) er mwyn gwneuthur peiriannau a ffitiadau nwy;
- (b) fel cyfleusterau storio pwysedd uchel neu gyfleusterau storio nwy naturiol hylifedig neu gyfleusterau a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w defnyddio mewn cysylltiad â storio alltraeth;
- (c) fel adeiladau swyddfa, pan nad yw'r adeiladau ar dir gweithredol BG plc; neu
- (ch) at fwy nag un o'r dibenion blaenorol, ac

mae i "cludwr nwy cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public gas transporter" yn Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986(b); ac

mae cyfeiriadau i BG plc yn gyfeiriadau at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar 9 Tachwedd 1999.

RHAN 4

HEREDITAMENTAU RHEILFFYRDD

Person dynodedig
Railtrack plc

-
- (a) 1989 p.29.
 - (b) 1986 p.44.

PART 3

GAS HEREDITAMENTS

Designated person
BG plc

Relevant hereditaments

Hereditaments (other than excepted hereditaments) used wholly or mainly for the purposes of BG plc acting as a public gas transporter

In this Part—

"excepted hereditament" means a hereditament consisting of or comprising premises used or, if unoccupied, intended to be used wholly or mainly—

- (a) for the manufacture of plant or gas fittings;
- (b) as high pressure storage facilities or liquified natural gas storage facilities or facilities used or available for use in connection with offshore storage;
- (c) as office premises, where those premises are not situated on operational land of BG plc; or
- (d) for more than one of the foregoing purposes; and

"public gas transporter" has the same meaning as in Part 1 of the Gas Act 1986 (b); and

references to BG plc are references to the company bearing that name on 9th November 1999.

PART 4

RAILWAY HEREDITAMENTS

Designated person
Railtrack plc

-
- (a) 1989 c.29.
 - (b) 1986 c.44.

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditamentau a leolir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn rheoliad 3(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

Relevant hereditaments

The hereditament situated in Wales described in regulation 3(3) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

RHAN 5

HEREDITAMENTAU TELATHREBU

Person dynodedig

British Telecommunications plc

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

Person dynodedig

Mercury Communications Limited

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

Person dynodedig

Racal Telecommunications Limited

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

Person dynodedig

Energis Communications Limited

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

Person dynodedig

AT&T(UK) Limited

Hereditamentau perthnasol

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(5) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

PART 5

**TELECOMMUNICATIONS
HEREDITAMENTS**

Designated person

British Telecommunications plc

Relevant hereditaments

The hereditament described in regulation 4(1) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

Designated person

Mercury Communications Limited

Relevant hereditaments

The hereditament described in regulation 4(2) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

Designated person

Racal Telecommunications Limited

Relevant hereditaments

The hereditament described in regulation 4(3) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

Designated person

Energis Communications Limited

Relevant hereditaments

The hereditament described in regulation 4(4) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

Designated person

AT&T (UK) Limited

Relevant hereditaments

The hereditament described in regulation 4(5) of the Non-Domestic Rating (Railways, Telecommunications and Canals) Regulations 1994

RHAN 6

HEREDITAMENTAU CYFLENWI

DŴR

Person Dynodedig

Dee Valley Water plc
Dŵr Cymru Cyfyngedig

PART 6

WATER SUPPLY HEREDITAMENTS

Designated person

Dee Valley Water plc
Dŵr Cymru Cyfyngedig

North West Water Limited
Severn Trent Water Limited

Hereditamentau perthnasol

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion ymgymerwr dŵr o dan Ran III o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991(a), neu at ddibenion ategol

Yn y rhan hon ystyr “hereditament a eithrir” yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf—

- (a) at wneud, storio, gwerthu, arddangos neu ddangos cyfarpar neu atodion at ddefnydd defnyddwyr dŵr (gan anwybyddu unrhyw ddefnydd ar gyfer derbyn taliadau am ddefnyddio dŵr neu wasanaethau carthffosiaeth); neu
- (b) fel adeiladau swyddfa a feddiennir gan berson dynodedig, os na fydd yr adeiladau hynny ar dir gweithredol y person hwnnw; neu
- (c) at y naill a'r llall o'r dibenion blaenorol.

RHAN 7

PIBLINELLAU HIRBELL

Person dynodedig

Mainline Pipelines Limited

Hereditamentau perthnasol

Piblinellau traws-gwlad (o fewn ystyr Deddf Piblinellau 1962(b)) a leolir o fewn ardal mwy nag un awdurdod bilio.

RHAN 8

DEHONGLI

Yn yr Atodlen hon—

ystyr “adeiladau swyddfa” yw unrhyw hereditament a adeiladwyd neu a addaswyd yn swyddfeydd neu at ddibenion swyddfa, neu a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y dibenion hynny;

mae “dibenion swyddfa” yn cynnwys dibenion gweinyddu a gwaith clerigol a thrin arian; ac mae “gwaith clerigol” yn cynnwys ysgrifennu, cadw cyfrifon, teipio, ffeilio, dyblygu, trefnu papurau neu wybodaeth neu gyfrif (boed â llaw, â pheiriant neu â chyfrwng electronig), tynnu lluniau a golygu deunydd ar gyfer ei gyhoeddi;

(a) 1991 p.56.

(b) 1962 p.58.

North West Water Limited
Severn Trent Water Limited

Relevant hereditaments

Hereditaments (other than excepted hereditaments) used wholly or mainly for the purposes of a water undertaker under Part III of the Water Industry Act 1991(a), or for ancillary purposes

In this Part, “excepted hereditament” means a hereditament consisting of or comprising premises used wholly or mainly—

- (a) for the manufacture, storage, sale, display or demonstration of apparatus or accessories for use by consumers of water (any use for the receipt of payments for the use of water or sewerage services being disregarded); or
- (b) as office premises occupied by a designated person, where those premises are not situated on operational land of that person; or
- (c) for both of the foregoing purposes.

PART 7

LONG-DISTANCE PIPE-LINES

Designated person

Mainline Pipelines Limited

Relevant hereditaments

Cross-country pipe-lines (within the meaning of the Pipe-lines Act 1962(b)) situated within the area of more than one billing authority

PART 8

INTERPRETATION

In this Schedule—

“office premises” means any hereditament constructed or adapted as offices or for office purposes, or used wholly or mainly for such purposes;

“office purposes” includes the purposes of administration and clerical work and handling money; and “clerical work” includes writing, book-keeping, typing, filing, duplicating, sorting papers or information or calculating (whether by manual, mechanical or electronic means), drawing, and the editorial preparation of matter for publication;

(a) 1991 c.56.

(b) 1962 c.58.

ystyr “tir gweithredol”, mewn perthynas â pherson dynodedig yw’r tir a ddefnyddir at ddibenion cynnal ymgymeriad y person hwnnw, sef tir, o ran ei natur a’i leoliad, sydd yn fwy cymaradwy â thir a ddefnyddir at ddibenion ymgymeriadau statudol (o fewn ystyr Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(a)) nag â thir yn gyffredinol;

Ac mae unrhyw gyfeiriad at hereditamentau a ddefnyddir at unrhyw bwrpas yn cynnwys cyfeiriad at hereditamentau nas defnyddir ond, mewn perthynas â hwy, ymddengys y cânt eu defnyddio at ddiben o’r fath pan ddefnyddir hwy nesaf.

“operational land”, in relation to a designated person, means land which is used for the purposes of carrying on that person’s undertaking, being land which, in respect of its nature and situation, is comparable rather with land which is used for the purposes of carrying on of statutory undertakings (within the meaning of the Town and Country Planning Act 1990(a)) than with land in general;

and any reference to hereditaments used for any purpose includes a reference to hereditaments which are unused but in relation to which it appears that when next in use they will be used for such a purpose.

(a) 1990 p.8.

(a) 1990 c.8.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

1999 Rhif 3453 (Cy. 50)

**ARDRETHU A PHRISIO,
CYMRU**

**Rheoliadau Rhestr Ardrethu
Canolog (Cymru) 1999**

National Assembly for Wales

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 No. 3453 (W. 50)

**RATING AND VALUATION,
WALES**

**The Central Rating List (Wales)
Regulations 1999**

© h Hawlfraint y Goron 1999

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan
The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth
Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau
Seneddol y Frenhines.

£2.50

WO 6013 01/00 ON

© Crown copyright 1999

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.



PostScript Picture